

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Daliadau Amaethyddol (Ffi) 2022

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru a chafodd ei osod ger bron Senedd Cymru gyda'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi golwg deg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Daliadau Amaethyddol (Ffi) 2022.

Lesley Griffiths AS

Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

25 Hydref 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

Mae'r offeryn hwn yn cynyddu'r ffi statudol ragnodedig y caiff awdurdod proffesiynol ei chodi am benodi cyflafareddwr annibynnol i ddatrys anghydfodau neu i wneud rhai cofnodion mewn perthynas â thenantiaethau amaethyddol a reolir gan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 ("Deddf 1986"). Nid yw'r ffi ragnodedig wedi ei diweddarau ers 1996 ac yn unol â chwyddiant mae'r offeryn hwn yn cynyddu'r ffi o £115 i £195. Mae'r offeryn hefyd yn rhoi dyletswydd statudol newydd ar Weinidogion Cymru i adolygu'r Rheoliadau bob pum mlynedd. Mae dyletswydd gyfatebol hefyd ar yr Ysgrifennydd Gwladol parthed Lloegr.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Offeryn statudol cyfansawdd yw hwn sy'n gymwys i Gymru a Lloegr yn unig a daw o dan y weithdrefn gadarnhaol yn Senedd Cymru a'r ddau Dŷ Senedd y DU.

Mae'r awdurdodau proffesiynol y mae'r Rheoliad hwn yn gymwys iddynt yn gweithredu dros y DU gyfan. Ystyrir dull cyfansawdd yn briodol gan y bydd yn sicrhau y daw'r cynnydd i rym yr un pryd yng Nghymru a Lloegr, gan sicrhau tegwch a chysondeb a chan osgoi biwrocraetiaeth ddiangen. Bydd hefyd yn lleihau dryswch a chymhlethdodau i ddaliadau trawsffiniol. Fe'i cefnogir gan randdeiliaid.

At hynny, mae'r offeryn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Daliadau Amaethyddol (Ffi) 1996 sydd hefyd yn gymwys i Gymru a Lloegr yn unig.

Gan y bydd yr offeryn hwn yn destun craffu gan Senedd y DU, ni ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol ei wneud na'i osod yn ddwyieithog.

3. Cefndir Deddfwriaethol

Mae adran 22 ac 84 o Ddeddf 1986 (fel y'i diwygiwyd gan baragraffau 4 i 6 o Atodlen 3 Deddf Amaethyddiaeth 2020) yn darparu y caiff landlordiaid a thenantiaid wneud cais i awdurdod proffesiynol benodi cyflafareddwr annibynnol i ddatrys anghydfodau a all godi mewn perthynas â thenantiaethau a reolir gan Ddeddf 1986 (adran 84) neu i benodi cyflafareddwr i wneud cofnodion penodol (adran 22). Mae adrannau 22(4) ac 84(4) yn nodi bod yn rhaid, wrth wneud cais am benodiadau o'r fath, dalu ffi ragnodedig ac ynghyd ag adran 94(3), rhaid rhagnodi'r ffi honno gan y Gweinidog mewn rheoliadau, sef ar hyn o bryd Rheoliadau Daliadau Amaethyddol (Ffioedd) 1996

("Rheoliadau 1996"). Mae Rheoliadau 1996 yn gymwys i Gymru a Lloegr er mwyn sicrhau y rhagnodir yr un ffi yn y ddwy wlad.

4. Pwrpas y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Deddf 1986 yn galluogi landlordiaid a thenantiaid i wneud cais i awdurdod proffesiynol benodi cyflafareddwr annibynnol i ddatrys unrhyw anghydfod a all godi mewn perthynas â'u cytundeb tenantiaeth neu i wneud cofnodion ffurfiol megis cofnodi cyflwr y daliad a'i offer sefydlog. Mae Deddf 1986 hefyd yn darparu bod yn rhaid talu ffi i'r awdurdod proffesiynol am y gwasanaeth penodi hwn a bod yn rhaid rhagnodi lefel y ffi mewn is-ddeddfwriaeth. Telir y ffi hon naill ai gan yr ymgeisydd (sef naill ai'r tenant neu'r landlord sy'n gwneud y cais) neu yn achos ceisiadau i benodi person i wneud cofnodion penodol, rhennir y ffi yn gyfartal rhwng y tenant a'r landlord.

Ar hyn o bryd pennir ffi ragnodedig yn Rheoliadau 1996 o £115 a chan nad yw wedi'i diweddarau ers 1996 nid yw bellach yn talu am y gost o ddarparu'r gwasanaeth penodi. Felly, mae angen diweddarau'r ffi yn unol â lefel chwyddiant y cyfnod hwn er mwyn sicrhau bod yr awdurdodau priodol yn adennill y gost o ddarparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol, a'i gysoni â chanllaw 'Managing Public Money'¹ Trysorlys EM a chanllawiau 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru' Llywodraeth Cymru ar ffioedd, taliadau ac ardollau. Nid yw Rheoliadau 1996 yn adlewyrchu diwygiadau diweddar i Ddeddf 1986 gan baragraffau 4 i 6 o Atodlen 3 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 sy'n ehangu'r rhestr o'r rheini sy'n cael penodi cyflafareddwyr i gynnwys Llywydd Cymdeithas Ganolog y Syrfewyr Amaethyddol (CAAV), a Chadeirydd Cymdeithas y Gyfraith Amaethyddol (ALA) ochr yn ochr â Llywydd Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartedig (RICS).

Mae'r Rheoliadau newydd yn cynnwys y newidiadau uchod a hefyd yn cynnwys cymal adolygu pum mlynedd. Bydd hyn yn sicrhau bod lefel y ffi yn cael ei hadolygu'n rheolaidd yn y dyfodol. Bydd adolygiadau'n cael eu cynnal ar y cyd â'r diwydiant i gadarnhau bod lefel y ffi yn briodol ac yn unol ag egwyddorion adfer costau.

Mae Rheoliadau 1996 yn gymwys i Gymru a Lloegr i sicrhau mai'r un ffi a ragnodir yn y ddwy wlad. Ar sail adborth gan randdeiliaid, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i barhau â'r dull cyfansawdd hwn fel bod lefel y ffi a ragnodir yn parhau'n gyson ac yn deg ar draws Cymru a Lloegr.

5. Ymgynghori

Gan mai'r cyfan y mae'r Rheoliadau'n ei wneud yw diweddarau ffi statudol yn unol â chwyddiant ac nad ydynt yn newid polisi Gweinidog Cymru na'i effaith mewn ffordd arwyddocaol, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

Serch hynny, yn 2021, bu Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ag aelodau o'r Grŵp Diwydiant Diwygio Tenantiaethau (cynrychiolwyr tenantiaid, landlordiaid ac

¹ [Managing public money - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)

ymgynghorwyr proffesiynol yn y diwydiant) i gael cadarnhad eu bod yn cefnogi'r cynnig i gynyddu'r un ffi ragnodedig i £195 sy'n gymwys i Gymru yn ogystal ag i Loegr. Cytunodd y rhan fwyaf o aelodau TRIG y dylai'r ffi fod ar yr un lefel yng Nghymru ac yn Lloegr er cysondeb a thegwch. Nododd rhai ymatebion ei bod yn bwysig cael cysondeb i osgoi problemau posibl gyda daliadau trawsffiniol.

6. Asesiad o'r Effaith Rheoleiddio

Nid oes RIA wedi ei baratoi ar gyfer yr offeryn hwn gan ei fod yn cynyddu'r ffi statudol yn unol â chwyddiant prisiau defnyddwyr. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yn nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer asesu effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.